



Asiantaeth  
Safonau  
Bwyd  
food.gov.uk

# **Cynhyrchu bwyd a bwyd anifeiliaid anwes yn yr un lle:**

**Canllawiau a chyngor i Weithredwyr  
Busnesau Bwyd a'u hasiantaethau  
gorfodi**

**Cyhoeddwyd mis Rhagfyr 2020**

## Hanes diwygio

<b>Rhif y diwygiad</b>	<b>Dyddiad</b>	<b>Diben y diwygiad</b>	<b>Diwygiwyd gan</b>
1	Rhagfyr 2020	Gweithredu'r canllawiau	Moira Williams

# Crynodeb

## Diben

Rydym ni wedi datblygu'r canllawiau hyn i helpu Gweithredwyr Busnesau Bwyd a'u hasiantaethau gorfodi i ddeall yn well y mesurau rheoli a'r systemau y mae'n rhaid eu rhoi ar waith i reoli'r risgiau o gynhyrchu bwyd anifeiliaid anwes penodol mewn sefydliadau sydd hefyd yn cynhyrchu bwyd i'w fwyta gan bobl.

## Statws cyfreithiol

Mae'r ddogfen hon yn rhannu arfer gorau a chanllawiau rheoliadol sy'n nodi'r hyn y mae angen i weithredwyr busnesau bwyd ei wneud i gydymffurfio â deddfwriaeth ddomestig a deddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd (UE).

## Ar gyfer pwy mae'r cyhoeddiad hwn?

Mae'r canllawiau hyn ar gyfer:

- gweithredwyr busnesau bwyd
- asiantaethau gorfodi

## I ba wledydd yn y Deyrnas Unedig (DU) mae'r canllawiau hyn yn berthnasol?

- Cymru
- Lloegr
- Gogledd Iwerddon

## Dyddiad adolygu

Byddwn ni'n adolygu'r canllawiau hyn cyn mis Rhagfyr 2021.

## Geiriau allweddol:

- cig a da byw
- cyfraith bwyd, monitro a rheolaethau
- hylendid a diogelwch bwyd
- bwyd anifeiliaid anwes
- sgil-gynhyrchion anifeiliaid
- cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid
- Dadansoddi Peryglon a Phwyntiau Rheoli Critigol (HACCP)

# Cynnwys

Hanes diwygio	2
Crynodeb	3
Diben	3
Statws cyfreithiol	3
Ar gyfer pwy mae'r cyhoeddiad hwn?	3
Dyddiad adolygu	3
Cyflwyniad	5
Cynulleidfa darged	6
Diben y canllawiau	6
Statws cyfreithiol y canllawiau	6
Pwy sy'n dod o fewn cwmpas y canllawiau hyn?	9
Gofynion cyffredinol ar gyfer gweithgynhyrchu bwyd anifeiliaid anwes	10
Cymeradwyo a Chofrestru	11
Gorfodi	11
Gweithgynhyrchu bwyd anifeiliaid anwes mewn sefydliadau bwyd cymeradwy/cofrestredig o gynhwysion sy'n cynnwys cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid (POAO) mewn modd sy'n addas ar gyfer bwyd i'w fwyta gan bobl	13
Cyfeiriadau	15
Adolygu	15
Atodiad A: Manylion cyswllt defnyddiol	16
Atodiad B: Cwestiynau Cyffredin	18

## Cyflwyniad

1. Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) wedi cael nifer o ymholiadau gan Weithredwyr Busnesau Bwyd ac Awdurdodau Lleol am y posibilrwydd o fusnesau bwyd yn cynhyrchu bwyd anifeiliaid anwes. Mewn ymateb i hyn, mae'r ASB wedi cydweithio â'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) a'r Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig (DAERA), y cyrff sy'n gyfrifol am gymeradwyo gweithgynhyrchu bwyd anifeiliaid anwes, i ddatblygu'r canllawiau canlynol. Mae'r canllawiau hyn yn cynghori gweithredwyr busnesau bwyd a'r rhai sy'n gyfrifol am reolaethau swyddogol yn y sefydliadau hyn ar amodau a phrosesau cynhyrchu yr ystyrir eu bod yn dderbyniol ar gyfer cymeradwyo gweithgynhyrchu bwyd anifeiliaid anwes, sy'n cynnwys cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid (POAO).
2. Ym mis Mawrth 2018, cyhoeddodd yr ASB ymgynghoriad cyhoeddus yn gofyn am farn rhanddeiliaid ar yr amodau y mae angen eu bodloni ar dri senario posibl os yw busnesau'n dewis cynhyrchu bwyd anifeiliaid anwes yn yr un cyfleuster â bwyd sy'n cael ei gynhyrchu i'w fwyta gan bobl. Yn sgil yr ymatebion a ddaeth i law, penderfynwyd bwrw ymlaen â'r cynnig ar sail un senario yn unig – Gweithgynhyrchu bwyd anifeiliaid anwes mewn sefydliadau bwyd cymeradwy/cofrestredig o gynhwysion sy'n cynnwys POAO mewn modd sy'n addas ar gyfer bwyd i'w fwyta gan bobl.
3. Rhaid gweithgynhyrchu bwyd anifeiliaid anwes yn fasnachol mewn busnesau sydd hefyd yn cynhyrchu bwyd i'w fwyta gan bobl o dan amodau gwahanu llym, er mwyn cael gwared ar y risg o groeshalogi'r gadwyn fwyd pobl neu ailgyflwyno bwyd anifeiliaid anwes i'r gadwyn fwyd. Felly, mae angen systemau olrhain cadarn i sicrhau'r mesurau rheoli ar draws y cadwyni prosesu. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r graddau angenrheidiol o wahanu a'r egwyddorion olrhain ar gyfer cynhyrchu bwyd anifeiliaid anwes o POAO mewn sefydliad bwyd mewn modd sy'n addas i'w fwyta gan bobl.
4. Rhaid i unrhyw sefydliad sydd eisoes wedi'i gymeradwyo neu wedi'i gofrestru ar gyfer cynhyrchu bwyd i'w fwyta gan bobl sydd hefyd eisiau cynhyrchu bwyd anifeiliaid anwes hysbysu'r awdurdod cymwys perthnasol<sup>1</sup> cyn mynd ati i ddechrau cynhyrchu'r ddau beth<sup>2</sup>. Bydd angen adolygu ac ailasesu'r system rheoli diogelwch bwyd yn seiliedig ar Ddadansoddiad Peryglon a Phwyntiau Rheoli Critigol (HACCP) ar gyfer unrhyw newid o'r fath. Pan geir cytundeb mewn egwyddor gan reoleiddiwr y busnes bwyd, bydd angen gwneud cais am gymeradwyaeth fel ffatri bwyd anifeiliaid anwes – gweler paragraff 14.

---

<sup>1</sup> Gweler yr adran Gorfodi ar dudalen 11

<sup>2</sup> Erthygl 6 (2) o 852/2004 – *Rhaid i weithredwyr busnesau bwyd hefyd sicrhau bod gan yr awdurdod cymwys wybodaeth gyfoes am sefydliadau bob amser, gan gynnwys trwy hysbysu unrhyw newid sylweddol mewn gweithgareddau ac unrhyw sefydliad presennol sy'n cau.*

## Cynulleidfa darged

5. Gweithredwyr busnesau bwyd sydd wedi'u cymeradwyo neu eu cofrestru gan yr awdurdod lleol neu'r ASB ar gyfer cynhyrchu bwyd i'w fwyta gan bobl, sydd hefyd am gynhyrchu bwyd anifeiliaid anwes o'r un safle gan ddefnyddio cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid.
6. Yr awdurdodau gorfodi sy'n gyfrifol am reolaethau swyddogol yn y sefydliadau hyn.

## Diben y canllawiau

7. Mae'r canllawiau hyn yn cynghori gweithredwyr busnesau bwyd a'r rhai sy'n gyfrifol am reolaethau swyddogol mewn sefydliadau cymeradwy neu gofrestredig ar amodau a phrosesau cynhyrchu yr ystyrir eu bod yn dderbyniol ar gyfer cymeradwyo'r broses o weithgynhyrchu bwyd anifeiliaid anwes gyda POAO mewn sefydliad bwyd mewn modd sy'n addas ar gyfer bwyd i'w fwyta gan bobl.
8. Er y gall y dull hwn gefnogi busnesau wrth arallgyfeirio a lleihau gwastraff bwyd (gan leihau eu hól troed carbon o ganlyniad), mae angen mesurau tynn i roi hyder i ddefnyddwyr yn y mesurau rheoli cyfredol, i ddiogelu iechyd y cyhoedd ac anifeiliaid ac i atal twyll bwyd. Mae'r gweithdrefnau hyn yn allweddol wrth gyflawni'r pwrpas hwn.

## Statws cyfreithiol y canllawiau

9. Datblygwyd y canllawiau hyn i roi:
  - Canllawiau ar ofynion cyfreithiol
    - [Rheoliad \(CE\) Rhif 142/2011](#) sy'n gweithredu Rheoliad (CE) Rhif 1069/2009 sy'n gosod rheolau iechyd mewn cysylltiad â sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid na fwriedir i bobl eu bwyta.
    - [Rheoliad \(CE\) Rhif 183/2005](#) sy'n gosod gofynion ar gyfer hylendid bwyd anifeiliaid.
    - [Rheoliad \(CE\) Rhif 767/2009](#) ar ddefnyddio a rhoi bwyd anifeiliaid ar y farchnad.
    - [Rheoliad \(CE\) Rhif 852/2004](#) ar hylendid bwydydd.
    - [Rheoliad \(CE\) Rhif 853/2004](#) sy'n gosod rheolau hylendid penodol ar gyfer bwyd sy'n dod o anifeiliaid; a
  - Chanllawiau arfer gorau.
10. Ni all y canllawiau hyn ar y gofynion cyfreithiol drin a thrafod pob sefyllfa, ac efallai bod angen i chi ystyried y ddeddfwriaeth berthnasol eich hun i weld sut y mae'n

berthnasol i'ch sefyllfa chi. Efallai y bydd busnesau sydd ag ymholiadau penodol yn dymuno holi eu hawdurdod gorfodi lleol am gyngor, sef adran safonau masnach / iechyd yr amgylchedd eu hawdurdod lleol fel arfer, neu APHA/DAERA<sup>3</sup>.

11. Bydd dilyn y nodiadau canllaw hyn yn eich helpu i gydymffurfio â'r gyfraith. Nid yw'n ofyniad cyfreithiol i ddilyn canllawiau arfer gorau. Nodir yr holl ganllawiau ar arfer gorau mewn blychau cysgodol, gyda phennawd Arfer Gorau:

### **Arfer gorau**

Mae'r holl ganllawiau arfer gorau wedi'u nodi'n glir yn y ddogfen hon yn y fformat hwn.

---

<sup>3</sup> Gweler yr adran Gorfodi ar dudalen 11

### **Mae cyfeiriadau at yr UE yn nogfennau canllaw'r ASB yn berthnasol yn ystod y cyfnod pontio**

Fe wnaeth y DU ymadael â'r UE ar 31 Ionawr 2020. Bellach mae cyfnod pontio tan ddiwedd 2020 tra bydd y DU a'r UE yn negodi trefniadau ychwanegol. Mae cyfraith yr UE yn parhau i fod yn berthnasol yn y DU yn ystod y cyfnod pontio, gan gynnwys rheolau ar fwyd a bwyd anifeiliaid. Mae hyn yn golygu bod cyfeiriadau yn y canllawiau hyn at reoliadau'r UE (fel y'u diwygiwyd) ac unrhyw ddeunyddiau canllaw cysylltiedig yr UE yn parhau i fod yn berthnasol.

**O 1 Ionawr 2021**, ac eithrio yng Ngogledd Iwerddon, dylid darllen bod unrhyw gyfeiriadau at Reoliadau'r UE yn golygu cyfraith yr UE a ddargedwir (retained EU law). Gallwch weld cyfraith yr UE a ddargedwir trwy Archif Ar-lein Ymadael â'r UE Llywodraeth EM. Dylid darllen y gyfraith hon ochr yn ochr ag unrhyw ddeddfwriaeth Ymadael â'r UE a wnaed i sicrhau bod cyfraith yr UE a ddargedwir yn gweithredu'n gywir yng nghyd-destun y DU. Mae deddfwriaeth Ymadael â'r UE i'w gweld ar [legislation.gov.uk](http://legislation.gov.uk). Yng Ngogledd Iwerddon, bydd cyfraith yr UE yn parhau i fod yn berthnasol mewn perthynas â'r rhan fwyaf o gyfraith hylendid bwyd a bwyd anifeiliaid, fel a restrir ym [Mhrotocol Gogledd Iwerddon](#), ac ni fydd cyfraith yr UE a ddargedwir yn berthnasol i Ogledd Iwerddon o dan yr amgylchiadau hyn.

Pan fyddwn yn cyhoeddi canllawiau newydd a diwygiedig ar ôl y cyfnod pontio, byddwn yn anelu at sicrhau bod croesgyfeiriadau yn cael eu diweddarau i adlewyrchu'n gywir y gyfraith sydd mewn grym ar y pryd.



## Pwy sy'n dod o fewn cwmpas y canllawiau hyn?

12. Mae'r canllawiau hyn ar gyfer gweithgynhyrchu bwyd anifeiliaid anwes mewn sefydliadau bwyd cymeradwy/cofrestredig gan ddefnyddio cynhwysion sy'n cynnwys cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid<sup>4</sup> ac mewn modd fel bwyd sy'n addas i'w fwyta gan bobl.
13. Mae gweithgynhyrchu bwyd anifeiliaid anwes, at ddibenion y canllawiau hyn, yn cynnwys yr holl brosesau cynhyrchu o ddewis y deunyddiau crai i storio'r cynnyrch gorffenedig wedi'i becynnu.

### Pwysig:

- i. Ni fwriedir i'r canllawiau hyn ddisodli'r cyfarwyddiadau ym mhennod 2.8 y Llawlyfr Rheolaethau Swyddogol (MOC), Llawlyfr Gweithrediadau APHA, nac unrhyw ganllawiau neu ofynion rheoliadol eraill.
- ii. Nid oes angen cymeradwyo bwyd anifeiliaid anwes a gynhyrchir o gynhwysion nad ydynt yn dod o anifeiliaid yn unig o dan y rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid. Rhaid eu cofrestru o dan Reoliadau Hylendid Bwyd Anifeiliaid (CE) Rhif 183/2005 gyda'r awdurdod gorfodi perthnasol yn unig.

---

<sup>4</sup> Mae deunydd sy'n addas i'w fwyta gan bobl yn dod yn sgil-gynnyrch anifail pan fydd y defnydd a fwriadwyd yn newid ("man cychwyn" fel y'i diffinnir yn CE Rhif 1069/2009, Teitl 1, Pennod 1, Adran 2, Erthygl 4)

## Gofynion cyffredinol ar gyfer gweithgynhyrchu bwyd anifeiliaid anwes

14. Dylai gweithredwyr busnesau bwyd fod wedi ystyried, asesu a datblygu gweithdrefnau ar gyfer y meysydd a ganlyn ar y lleiaf wrth ystyried gweithgynhyrchu bwyd anifeiliaid anwes mewn sefydliadau bwyd:
- System reoli seiliedig ar Ddadansoddi Peryglon a Phwyntiau Rheoli Critigol (HACCP) ar gyfer y broses bwyd anifeiliaid anwes, sy'n ystyried y risgiau croeshalogi (*cross-contamination*) posibl sy'n gysylltiedig â gweithgynhyrchu bwyd ac sy'n cynnwys cynllun rheoli plâu.
  - Protocolau labelu ac adnabod ar gyfer bwyd anifeiliaid anwes i sicrhau bod modd ei adnabod, ei olrhain a'i gadw ar wahân i fwyd sy'n cael ei gynhyrchu i'w fwyta gan bobl yn barhaus ac yn ddiamwys.
  - Gweithdrefnau hylendid a Gweithdrefnau Gweithredu Safonol sy'n manylu ar y gwahaniad rhwng y broses weithgynhyrchu.
  - System olrhain fewnol gadarn ar gyfer y bwyd anifeiliaid anwes a'r bwyd i'w fwyta gan bobl, gan sicrhau na chaiff bwyd anifeiliaid anwes ei ailgyflwyno i'r gadwyn fwyd, o dan egwyddorion HACCP. Rhaid cadw cofnodion a dogfennau cysylltiedig sy'n ymwneud â gweithgynhyrchu bwyd anifeiliaid anwes am o leiaf dwy flynedd.
  - Gofynion strwythurol, offer a staffio fel sy'n ofynnol ar gyfer cynhyrchu bwyd a bwyd anifeiliaid anwes.
  - Rhaglen samplu microbiolegol fel sy'n ofynnol gan y Rheoliadau Sgilygynhyrchion Anifeiliaid (Atodiad XIII o (CE) Rhif 142/2011) ac ymarfer a chanllawiau hylendid da, gan gynnwys camau unioni pan fydd canlyniadau'n gwyro o'r lefelau disgwylidig. Mae rhagor o ganllawiau ar gael fan hyn.
  - Gweithdrefnau galw neu dynnu cynhyrchion yn ôl rhag ofn bod angen tynnu cynnyrch oddi ar y farchnad.
  - Gweithdrefnau i atal pobl ac anifeiliaid heb awdurdod rhag cael mynediad i'r ardal cynhyrchu bwyd anifeiliaid anwes.

### Pwysig:

- i. Ni all y labelu ar gyfer cynhyrchion bwyd anifeiliaid anwes gynnwys y Marc Adnabod (Marc Iechyd) a ddefnyddir ar gyfer bwyd i'w fwyta gan bobl a weithgynhyrchir yn y sefydliad.
- ii. Mae angen dogfennau masnachol ar wahân ar gyfer bwyd a bwyd anifeiliaid anwes. Rhaid i'r ddogfen bwyd anifeiliaid anwes fod ar ffurf y ddogfen symlach a bennir yn Atodiad VIII o Reoliad 142/2011.

## Cymeradwyo a Chofrestru

15. Rhaid i weithredwr y busnes bwyd gael cymeradwyaeth gan APHA yng Nghymru ac yn Lloegr<sup>5</sup>, a DAERA yng Ngogledd Iwerddon<sup>6</sup> fel safle gweithgynhyrchu bwyd anifeiliaid anwes o sgil-gynhyrchion anifeiliaid cyn dechrau'r gweithrediadau. Byddai angen mewnbwn ar y broses gan yr awdurdod lleol a'r ASB gan y bydd y gweithrediadau'n digwydd yn yr un lleoliad â gweithrediadau prosesu bwyd.
16. Yng Nghymru ac yn Lloegr, mae angen cofrestru gyda'r awdurdod lleol perthnasol hefyd o dan y Rheoliadau Hylendid Bwyd Anifeiliaid, er na ddylai hyn arwain at unrhyw ofyniad ychwanegol ar gyfer gweithredwr y busnes bwyd. I gofrestru a/neu i gael cymeradwyaeth bydd angen i chi wneud cais i swyddfa Safonau Masnach yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am yr ardal y mae eich sefydliad bwyd anifeiliaid yn gweithredu ynddi. Gallwch ddod o hyd i'ch Swyddfa Safonau Masnach ar-lein.

## Gorfodi

17. Cyfrifoldeb gwahanol gyrff gorfodi fydd arolygu a gorfodi'r ardal gweithgynhyrchu bwyd anifeiliaid anwes sydd wedi'i chydleoli a gweithgareddau cysylltiedig ar sail risg, gan ddibynnu ar leoliad y sefydliad.
18. Pan fydd cyfrifoldebau am weithrediadau yn gorgyffwrdd neu lle mae ardaloedd cymunedol yn bodoli, bydd yn rhaid i APHA, yr ASB, DAERA ac awdurdodau lleol gydlynw'r ffordd y mae rheolaethau swyddogol yn cael eu gweithredu. Bydd yr asiantaethau gorfodi yn ystyried ymweliad goruchwyllo ar y cyd ac yn gweithio gyda'i gilydd i benderfynu pa awdurdod ddylai gymryd unrhyw gamau gorfodi angenrheidiol.
19. Bwriad y tabl isod yw egluro lle mae'r gwahanol gyfrifoldebau yn perthyn yn y gwahanol weinyddiaethau, a gellir dod o hyd i fanylion cyswllt a dolenni cysylltiedig ar eu cyfer yn Atodiad A:

---

<sup>5</sup> <https://www.food.gov.uk/cy/canllawiau-busnes/bwyd-anifeiliaid-anwes>

<sup>6</sup> <https://www.daera-ni.gov.uk/publications/pet-food-manufacture>

	<b>Cymeradwyaeth (o dan ddeddfwriaeth Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid)</b>	<b>Cofrestru (o dan ddeddfwriaeth hylendid bwyd anifeiliaid)</b>	<b>Gorfodi *</b>
Cymru a Lloegr	APHA	Awdurdod lleol	Awdurdod lleol / Safonau masnach
Gogledd Iwerddon	DAERA (Cangen Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid)	DAERA	DAERA (VPHP)

\* Gall trefniadau lleol fod yn berthnasol.

## **Gweithgynhyrchu bwyd anifeiliaid anwes mewn sefydliadau bwyd cymeradwy/cofrestrdig o gynhwysion sy'n cynnwys cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid (POAO) mewn modd sy'n addas ar gyfer bwyd i'w fwyta gan bobl**

20. Caniateir gweithgynhyrchu bwyd anifeiliaid anwes o gynhwysion sy'n addas i'w bwyta gan bobl yn unig ac sy'n cynnwys POAO, gan ddefnyddio'r un offer ac ystafelloedd a ddefnyddir ar gyfer bwyd i'w fwyta gan bobl. O dan yr amgylchiadau hyn, rhaid trin deunyddiau crai bob amser fel rhai sy'n addas i'w bwyta gan bobl hyd at y pwynt pecynnu a storio, hynny yw, unwaith y bydd y cynnyrch wedi'i becynnu fel bwyd anifeiliaid anwes bydd angen ei drin a'i storio ar wahân a'i labelu'n glir fel bwyd anifeiliaid anwes.
21. Dylai'r ardal prosesu bwyd/bwyd anifeiliaid anwes fod wedi'i gwneud o ddeunyddiau sy'n hawdd eu glanhau a dylai gynnwys offer sy'n hawdd eu glanhau. Dylai hyn gynnwys cyfleusterau golchi dwylo a, lle bo angen, cyfleusterau storio addas lle mae'r tymheredd wedi'i reoli.

## Arfer Gorau

22. Byddai'n rhaid i fusnes o'r fath gydymffurfio â'r gofynion a nodir isod:

- Gellir rhannu'r ardal a'r offer prosesu bwyd anifeiliaid anwes â'r ardaloedd prosesu bwyd. Mae gwahanu sypiau (*batch separation*) yn dderbyniol, ar yr amod bod y perygl o groeshalogi rhwng y bwyd i'w fwyta gan bobl a'r bwyd anifeiliaid anwes yn cael ei reoli.
- Nid oes angen cael cyfleuster newid ar wahân, staff pwrpasol na defnyddio dillad amddiffynnol gwahanol.
- Fe'ch cynghorir i ddilyn patrwm gweithio penodol i wahanu'r ddau weithrediad prosesu yn glir. Er enghraifft, cynhyrchu bwyd anifeiliaid anwes ar ddiwedd y dydd neu ar ddiwrnodau gwahanol i fwyd sydd i'w fwyta gan bobl. Os defnyddir y dechneg gwahanu sypiau, gellir gweithredu system â chod lliw i sicrhau bod yr holl staff yn gallu adnabod y gwahanol linellau gweithgynhyrchu.
- Gellir rhannu toiledau staff a chyfleusterau eraill (fel ffreuturau) gyda'r sefydliad cynhyrchu bwyd ar yr amod bod eu lleoliad a'u gweithdrefnau ar gyfer defnyddio yn atal croeshalogi (hynny yw, ni ddylid gwisgo dillad amddiffynnol yn yr ardaloedd hyn).
- Gellir storio unrhyw gynhwysyn, ychwanegyn neu ddeunydd pecynnu ychwanegol a fwriadwyd ar gyfer prosesu bwyd anifeiliaid anwes yn yr un ystafell â chynhwysion bwyd neu ddeunydd pecynnu arall, ar yr amod bod y rhain wedi'u nodi'n glir, wedi'u gwahanu mewn man dynodedig ac wedi'u selio'n llawn. Rhaid i'r rhain fod o safon bwyd, ac wedi'u rhestru'n glir ac yn hawdd eu hadnabod i sicrhau na chânt eu defnyddio ar ddamwain wrth brosesu bwyd.
- Rhaid bod gweithdrefnau digonol ar waith i sicrhau na ddefnyddir unrhyw ddeunydd pecynnu neu gynhwysion safon bwyd ychwanegol a fwriadwyd ar gyfer prosesu bwyd anifeiliaid anwes wrth brosesu bwyd.
- Er fod rhaid storio'r bwyd anifeiliaid anwes a gynhyrchir ar y safle ar wahân i fwyd, gellir rhannu'r un oergelloedd neu rewgelloedd, ar yr amod bod yr holl gynhyrchion terfynol wedi'u nodi/labelu'n glir, wedi'u selio'n llwyr ac yn atal gollyngiadau, a bod rhannau ohonynt wedi'u marcio'n barhaol a'u dynodi'n glir ar gyfer bwyd a bwyd anifeiliaid anwes.
- Gellir rhannu ardaloedd llwytho/dadlwytho ag ardaloedd cynhyrchu bwyd, ar yr amod bod digon o wahanu o ran amser a bod yr holl gynhyrchion sy'n cael eu trin wedi'u lapio neu eu pecynnu'n ddigonol, a'u labelu'n glir.

- Gellir defnyddio'r un cerbydau cludo ar gyfer bwyd anifeiliaid anwes a bwyd i'w fwyta gan bobl, ar yr amod bod yr holl gynhyrchion terfynol wedi'u nodi/labelu'n glir, wedi'u selio'n llwyr a'u bod yn atal gollyngiadau.
- Gall cerbydau cludo a fwriadwyd ar gyfer y gweithrediadau prosesu bwyd anifeiliaid anwes rannu mynedfa/allanfa y sefydliad bwyd y maent ynnddo, ar yr amod nad oes unrhyw risg o groeshalogi i'r broses o gynhyrchu bwyd i'w fwyta gan bobl.

## Cyfeiriadau

23. Mae rhestr o fanylion cyswllt defnyddiol a dolenni cysylltiedig i'w gweld yn Atodiad A.
24. Mae rhestr o gwestiynau cyffredin a'r atebion iddynt i'w gweld yn Atodiad B.

## Adolygu

Ein nod yw cadw'r holl ganllawiau yn gyfredol a chynnal adolygiadau rheolaidd i sicrhau bod canllawiau'n parhau i fod yn berthnasol. Y dyddiad adolygu nesaf sydd wedi'i drefnu ar gyfer y canllawiau hyn yw **[i'w gadarnhau]**.

## Cysylltu â ni

Rydym ni'n croesawu eich adborth ar y canllawiau hyn, gan gynnwys adroddiadau am unrhyw ddolenni nad ydynt yn gweithio neu gynnwys sydd wedi dyddio. Anfonwch unrhyw adborth at [meathygiene@food.gov.uk](mailto:meathygiene@food.gov.uk).

## Atodiad A: Manylion cyswllt defnyddiol

### Asiantaeth Safonau Bwyd – Ar gyfer materion yn ymwneud â pholisi

Tîm Polisi Hylendid Cig	Yr Asiantaeth Safonau Bwyd Llawr 6 Clive House 70 Petty France Llundain SW1H 9EX	Ffôn: 020 7276 8000 E-bost: <a href="mailto:meathygiene@food.gov.uk">meathygiene@food.gov.uk</a>
ASB yng Ngogledd Iwerddon	Yr Asiantaeth Safonau Bwyd 10a-c Clarendon Road Belfast BT1 3BG	Ffôn: 028 90417700 E-bost: <a href="mailto:Executive.Support@food.gov.uk">Executive.Support@food.gov.uk</a>

### Swyddfeydd Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA)

Manylion cyswllt	<a href="https://www.gov.uk/government/organisations/animal-and-plant-health-agency/about/access-and-opening.cy">https://www.gov.uk/government/organisations/animal-and-plant-health-agency/about/access-and-opening.cy</a>
------------------	---

### Adran Amaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig (DAERA) yng Ngogledd Iwerddon

Swyddfeydd Rhanbarthol Uniongyrchol DAERA	<a href="https://www.daera-ni.gov.uk/contacts/daera-direct-regional-offices">https://www.daera-ni.gov.uk/contacts/daera-direct-regional-offices</a>
Polisi Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid DAERA	<a href="mailto:ignatius.mckeown@daera-ni.gov.uk">ignatius.mckeown@daera-ni.gov.uk</a>

### Manylion cyswllt Awdurdodau Lleol

Cymru a Lloegr	<a href="https://www.food.gov.uk/cy/contact/consumers/find-details/cysylltwch-a-thim-diogelwch-bwyd">https://www.food.gov.uk/cy/contact/consumers/find-details/cysylltwch-a-thim-diogelwch-bwyd</a>
Gogledd Iwerddon	<a href="https://www.nidirect.gov.uk/contacts/local-councils-in-northern-ireland">https://www.nidirect.gov.uk/contacts/local-councils-in-northern-ireland</a>



## Y Gymdeithas Gweithgynhyrchu Bwyd Anifeiliaid Anwes (PFMA)

**PFMA – Y prif gorff masnach ar gyfer  
diwydiant bwyd anifeiliaid anwes y DU**

<https://www.pfma.org.uk>

## Atodiad B: Cwestiynau Cyffredin

### **C1. Rydw i'n deall mai APHA/DAERA sy'n cymeradwyo gweithgarwch cynhyrchu bwyd anifeiliaid anwes, ond gan fy mod wedi cofrestru gyda fy awdurdod lleol fel busnes bwyd, a fyddai angen cymeradwyaeth gan yr ASB arnaf hefyd?**

APHA/DAERA yw'r cyrff sy'n gyfrifol am gymeradwyo prosesu bwyd anifeiliaid anwes os ydych chi'n defnyddio sgil-gynhyrchion anifeiliaid fel cig, pysgod neu gynhyrchion llaeth. Cyn dechrau cynhyrchu, rhaid i weithredwyr busnesau bwyd gael cymeradwyaeth gan APHA/DAERA i gael eu cofnodi fel safleoedd prosesu bwyd anifeiliaid anwes gan ddefnyddio sgil-gynhyrchion anifeiliaid (ar gyfer safleoedd yng Nghymru ac yn Lloegr).

Bydd y broses gymeradwyo yn gofyn am fewnbwn gan eich awdurdod lleol a'r ASB. Gellir gweld manylion y gofynion y mae'n rhaid eu bodloni yn y ddogfen ganllaw uchod.

### **C2. Rydw i'n bwriadu defnyddio sgil-gynhyrchion anifeiliaid (er enghraifft cig, cynhyrchion cig neu gynhyrchion llaeth) yn y bwyd anifeiliaid anwes rydw i'n ei gynhyrchu. A oes unrhyw ofynion penodol yn ymwneud â hyn?**

Oes. Fel yng Nghwestiwn 1 uchod, os ydych chi'n bwriadu defnyddio deunydd sy'n dod o anifeiliaid yn eich cynhyrchion (nodwch fod 'dod o anifail' hefyd yn cynnwys, er enghraifft: llaeth, wyau a deunydd o darddiad morol fel pysgod a physgod cregyn), bydd angen i chi hefyd geisio cymeradwyaeth gan APHA/DAERA o dan y rheolau sgil-gynhyrchion anifeiliaid y mae'r adrannau hynny yn gyfrifol amdanynt. Mae hyn oherwydd y goblygiadau y gallai gweithgynhyrchu, cludo, storio neu ddefnyddio deunydd sy'n dod o anifeiliaid yn amhriodol eu cael ar iechyd anifeiliaid. Mae rhagor o wybodaeth am y rheolau hyn ar gael drwy <https://www.gov.uk/using-animal-by-products-to-make-pet-food>

### **C3. Pa gorff gorfodi fydd â chyfrifoldeb am arolygu fy musnes?**

Bydd gan APHA/DAERA gyfrifoldeb i gynnal arolygiadau seiliedig ar risg a gorfodi mewn sefydliadau prosesu bwyd anifeiliaid anwes sydd wedi'u cydleoli (hynny yw, y sefydliadau hynny lle mae bwyd a bwyd anifeiliaid anifeiliaid anwes yn cael eu cynhyrchu). Pan fydd gweithrediadau yn gorgyffwrdd neu lle mae ardaloedd cymunedol yn bodoli, bydd yn rhaid i staff yr ASB, awdurdodau lleol ac APHA/DAERA gydlynu i sicrhau nad yw ardaloedd cynhyrchu bwyd na bwyd anifeiliaid mewn perygl o gael eu halogi (cyfeiriwch at adran orfodi'r canllawiau).

### **C4. Fel sefydliad bwyd cymeradwy, rhaid i mi gynnwys marc adnabod fy sefydliad ar yr holl gynnyrch rydw i'n ei gynhyrchu a'i roi ar y farchnad. Ydw i'n gallu defnyddio'r marc adnabod hwn ar unrhyw gynnyrch sydd i'w ddefnyddio mewn bwyd anifeiliaid anwes yr ydw i'n ei gynhyrchu?**

Nac ydych. Ni all labeli ar fwydydd anifeiliaid anwes gynnwys unrhyw gyfeiriad at y marc adnabod (sef y marc iechyd) a ddefnyddir ar gyfer bwyd i'w fwyta gan bobl yn eich sefydliad.

## **C5. Rydw i am sefydlu busnes bach gartref yn gwneud bwyd anifeiliaid anwes neu drïts anifeiliaid anwes – beth sydd angen i mi ei wneud?**

Mae modd cymeradwyo gweithgarwch cynhyrchu bwyd anifeiliaid anwes mewn safle domestig, ond bydd angen i chi gadw at yr holl amodau sy'n berthnasol i ffatrioedd bwyd anifeiliaid anwes eraill. Mae hyn yn cynnwys y gofyniad i gynnal gwaith samplu bacteriolegol, a rhoi system rheoli diogelwch bwyd anifeiliaid ar waith yn seiliedig ar egwyddorion HACCP. **Fodd bynnag, ni chaniateir gwneud cynnyrch bwyd anifeiliaid anwes amrwd (raw) masnachol o'ch cegin ddomestig.** Dylech gysylltu â'ch Swyddfa Safonau Masnach leol i gofrestru a/neu gael rhagor o gyngor. Mae hefyd yn bwysig nodi, os ydych chi'n defnyddio sgil-gynhyrchion anifeiliaid fel cig, pysgod neu gynhyrchion llaeth, bydd angen cymeradwyaeth fel ffatri bwyd anifeiliaid anwes gan APHA/DAERA. Gellir gweld y manylion cyswllt yn Atodiad A (isod).

## **C6. Ble alla i ddod o hyd i'r gofynion labelu ar gyfer bwyd anifeiliaid anwes?**

Mae rhagor o wybodaeth am labelu bwyd anifeiliaid anwes ar gael ar ein gwefan drwy <https://www.food.gov.uk/cy/canllawiau-busnes/bwyd-anifeiliaid-anwes>

Gwahoddwyd sectorau'r diwydiant i ddatblygu canllawiau ymarferol ar gyfer y diwydiant, defnyddwyr ac awdurdodau ar sut i weithredu rheolau'r UE. Gellir gweld canllawiau ar wefan [Cymdeithas Gweithgynhyrchwyr Bwyd Anifeiliaid Anwes \(PFMA\)](#) sydd hefyd yn cynnwys [Cod Ymarfer Labelu Da FEDIAF ar gyfer Bwyd Anifeiliaid Anwes](#) ac yn rhoi arweiniad ar labelu bwyd anifeiliaid anwes.

Os oes angen cyngor pellach arnoch, cysylltwch â'ch Swyddfa Safonau Masnach lleol, ond cofiwch mai cyfrifoldeb gweithredwr y busnes bwyd yw sicrhau bod unrhyw gynnyrch a werthir ganddo yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth.

## **C7. Rydw i'n bwriadu labelu fy nghynnyrch fel un organig / llysieuol / figan. Pa ofynion sy'n berthnasol?**

Os ydych chi'n bwriadu defnyddio'r term 'organig' bydd angen i chi gydymffurfio â'r cyfyngiadau sy'n berthnasol i'r dynodiad hwnnw. Mae rhestr o'r cyrff rheoli organig ar gael drwy <https://www.gov.uk/government/publications/organic-certification-list-of-uk-approved-organic-control-bodies/approved-uk-organic-control-bodies>

Nid oes unrhyw ofynion cyfreithiol penodol ar gyfer defnyddio'r termau llysieuol neu figan, ond rhaid i chi sicrhau nad yw unrhyw honiad yn gamarweiniol. Efallai yr hoffech ofyn am gyngor pellach gan gymdeithas fel y Gymdeithas Figan (<http://www.vegansociety.com/try-vegan/definition-veganism>) neu'r Gymdeithas Llysieuwyr (<https://www.vegsoc.org/foodlabelling>).

Mae angen cymeradwyo gweithgarwch gweithgynhyrchu bwyd anifeiliaid anwes llysieuol sy'n cynnwys wyau a chynhyrchion llaeth o dan y Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid. Nid oes angen cymeradwyo bwyd anifeiliaid anwes figan o dan y Rheoliadau Sgil-

gynhyrchion Anifeiliaid gan nad yw'n cynnwys unrhyw ddeunydd sy'n dod o anifeiliaid.  
Fodd bynnag, mae gweddill y canllawiau yn berthnasol.



© Hawlfraint y Goron 2020

Mae'r cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. Mewn manau lle'r ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth am hawlfraint trydydd parti, bydd gofyn i chi geisio caniatâd y rheiny sy'n dal yr hawlfraint dan sylw.

I gael rhagor o wybodaeth ac i weld y drwydded hon:

ewch i [wefan yr Archifau Cenedlaethol](#)

anfonwch e-bost at [psi@nationalarchives.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gov.uk)

ysgrifennwch at: Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU

Os oes gennych chi ymholiad am y cyhoeddiad hwn, [cysylltwch â'r Asiantaeth Safonau Bwyd](#).



Dilynwch ni ar Twitter:  
[@fsacymru](#) [@fsawales](#)  
[@foodgov](#)



Dewch o hyd i ni ar Facebook:  
[facebook.com/AsiantaethSafonauBwyd](https://www.facebook.com/AsiantaethSafonauBwyd)